# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 18 Hydref 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 96(v5)

---

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon:**

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**: A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran cyflwyno ateb tymor hir i'r costau yswiriant meddygol uchel sy'n wynebu meddygon teulu yng Nghymru?

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (i'w ateb gan Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol):**

Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am adroddiad diweddar Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru am ddiogelu plant ym Mhowys?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## Cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau

(5 munud)

**Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod yr eitemau canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:**

**NDM6541** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Neil McEvoy (Annibynnol) yn aelod o'r Pwyllgor Deisebau.

**NDM6542** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Rhun ap Iorwerth (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Deisebau.

**NDM6543** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Adam Price (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

**Dogfen ategol**

Adroddiad ar ystyriaeth y Pwyllgor Busnes o'r effaith ar aelodaeth pwyllgorau a dyraniad cadeiryddion wrth i Aelod adael grŵp gwleidyddol – 17 Hydref 2017

## Cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau

(5 munud)

**Cynnig o dan Reolau Sefydlog 12.24 a 12.40 i drafod yr eitemau canlynol gyda'i gilydd:**

**NDM6544** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Dai Lloyd (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn lle Sian Gwenllian (Plaid Cymru).

**NDM6545** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Sian Gwenllian (Plaid Cymru) yn aelod o Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn lle Dai Lloyd (Plaid Cymru).

## 5 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog 26, 26A a 26B mewn perthynas ag Uwch-fwyafrifoedd ar gyfer Biliau'r Cynulliad

(5 munud)

**NDM6535** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheolau Sefydlog 26, 26A a 26B - Uwch-fwyafrifoedd ar gyfer Biliau'r Cynulliad' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Hydref 2017; ac

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheolau Sefydlog 26, 26A a 26B, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

## 6 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

(60 munud)

**NDM6527**

Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)
Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)
Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)
Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)
David Melding (Canol De Cymru)
Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod cyflymder y chwyldro mewn technoleg drafnidiaeth yn herio rhagdybiaethau cynllunio presennol ac yn golygu bod angen ail-feddwl dylunio a pholisi cyhoeddus yn sylweddol.

2. Yn credu y bydd angen i weithgynhyrchwyr trafnidiaeth a'u cadwyni cyflenwi addasu neu farw wrth i'r motor tanio gael ei ddiddymu'n raddol dros yr 20 mlynedd nesaf o ganlyniad i:

a) cerbydau heb yrwyr, a fydd yn amharu ar dybiaethau ynghylch y berchnogaeth breifat o geir, cynllunio trefol, rheoli tagfeydd ar y ffyrdd a rôl bysiau i gysylltu cymunedau; a

b) cerbydau trydan, sy'n golygu bod angen i drydan gael ei gynhyrchu a'i gyflenwi mewn ffordd fwy gwasgaredig gan gynnwys pwyntiau trydanu ledled Cymru;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'r camau y mae'n eu cymryd i alinio polisïau â chyflymder y newid a sicrhau bod pob dinesydd yn cael budd o hyn, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'

**Cefnogwyd gan**

Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6534** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ymestyn cymhwysedd ar gyfer hawlio teithiau bws am ddim i bob person rhwng 16 a 24 oed yng Nghymru; a

b) ymestyn cymhwysedd ar gyfer breintiau cerdyn rheilffordd i bob person rhwng 16 a 24 oed yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd economaidd, addysgol a chymdeithasol helpu pobl ifanc â chostau cludiant cyhoeddus.

2. Yn nodi'r ymgynghoriad a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun Pas Teithio newydd ac uchelgeisiol i Bobl Ifanc sy'n annog mwy o bobl ifanc i ddefnyddio'r bysiau.

3. Yn cydnabod bod angen costio unrhyw gynigion.

4. Yn nodi pwysigrwydd ymgysylltu'n helaeth â phobl ifanc, awdurdodau lleol, darparwyr addysg a chwmnïau bysiau i sicrhau bod y ddarpariaeth, o'i hehangu, yn targedu'r rheini sydd angen yr help fwyaf.

5. Yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru trwy Trafnidiaeth i Gymru i annog mwy o bobl ifanc i ddefnyddio rhwydwaith cludiant cynaliadwy, integredig ac amlfoddol.

'Ymgynghoriad: Teithiau bws rhatach ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru'

## 8 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6536** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r angen i gryfhau perfformiad economi Gogledd Cymru.

2. Yn gresynu at danariannu hanesyddol yng ngogledd Cymru gan Lywodraeth Lafur Cymru.

3. Yn croesawu llwyddiant Plaid Cymru yn sicrhau buddsoddiad sylweddol ar gyfer gogledd Cymru fel rhan o gytundeb y gyllideb gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018/19 a 2019/20, gan gynnwys:

a) gwell cysylltiadau ffyrdd rhwng y gogledd a'r de;

b) cyllid i gefnogi dylunio a datblygu trydydd croesiad dros y Fenai;

c) cyllid i fwrw ymlaen â chanlyniad yr astudiaeth ddichonoldeb ynghylch creu amgueddfa bêl-droed genedlaethol yng ngogledd Cymru;

d) sefydlu cynllun grant ffermwyr ifanc a fydd o fudd i'r diwydiant amaethyddol yng ngogledd Cymru;

e) creu cronfa ddatblygu ar gyfer hyfforddiant meddygol israddedig yng ngogledd Cymru;

f) rhyddhad ardrethi o 100 y cant ar gyfer cynlluniau ynni dŵr cymunedol, y mae sawl un ohonynt yng ngogledd Cymru;

g) cyllid ychwanegol ar gyfer Croeso Cymru a fydd yn hwb i'r diwydiant twristiaeth yng ngogledd Cymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno, fel rhan o'i strategaeth economaidd hir-ddisgwyliedig, ymdrechion gwirioneddol i fynd i'r afael ag anghydbwysedd rhanbarthol yn economi Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Dileu’r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd strategol hanfodol economi'r Gogledd i Gymru a'r DU.

2. Yn nodi rôl Llywodraeth Cymru fel arweinydd trawsffiniol i ddatblygu cynigion â phartneriaid ar gyfer Bargen Twf y Gogledd.

3. Yn croesawu'r rhaglen fuddsoddi uchelgeisiol o dan arweiniad Llywodraeth Cymru yn y rhanbarth, sy'n cynnwys:

a) buddsoddi £250m yng nghoridor yr A55/A494;

b) £20m i sefydlu Athrofa Ymchwil a Gweithgynhyrchu Uwch;

c) £50m ar gyfer Metro'r Gogledd Ddwyrain; a

d) cynlluniau ar gyfer trydedd bont dros y Fenai.

4. Yn croesawu cymorth cyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant dur, sy'n helpu i roi dyfodol cynaliadwy i'r gwaith, cymuned a gweithwyr yn Shotton.

5. Yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i brosiect gwerth £14 biliwn Wylfa Newydd a gwaith i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn gadael gwaddol gynaliadwy o swyddi, seilwaith a thai o ansawdd da yn Ynys Môn a'r Gogledd Orllewin.

6. Yn croesawu'r cytundeb cyllidebol diweddar â Phlaid Cymru.

7. Yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i ddod â Cynllun Gweithredu Economaidd yn ei flaen a all gynnal swyddi a thwf yn y rhanbarth.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-dethol]*

**Gwelliant 2.** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Dileu pwynt 3.

**Gwelliant 3.** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod dogfen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, 'Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru', yn nodi bod "gogledd Cymru mewn lle da i dderbyn ystod o gyfrifoldebau newydd" ac yn cymeradwyo ei alwad am ddatganoli pwerau gan Lywodraeth Cymru dros gyflogaeth, trethi, sgiliau a thrafnidiaeth.

'Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru - Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru'

## 9 Cyfnod Pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6533** Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)

Diogelu a hawliau cleifion yn y GIG yng Nghymru - cynorthwyo'r dioddefwr

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 24 Hydref 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 11 Hydref 2017 i'w hateb ar 18 Hydref 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi cael ei gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw Llefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

**1. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant ffermio yng Nghymru? (OAQ51203)

**2. Jeremy Miles (Castell-nedd):** Pa rôl y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ei rhagweld ar gyfer awdurdodau lleol yn y broses o gynhyrchu a dosbarthu ynni yng Nghymru? (OAQ51212)

**3. Huw Irranca–Davies (Ogwr):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu manylion pellach am sut y gall rhanddeiliaid y tu hwnt i awdurdodau rheoli gyfrannu at ddatblygu cynllun gweithredu ar flaenoriaethau rheoli ardaloedd morol gwarchodedig? (OAQ51185)

**4. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r manteision sy'n dod i Gymru o ganlyniad i fynediad i ddyfrffyrdd? (OAQ51188)

**5. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am yr adolygiad o dirweddau dynodedig yng Nghymru? (OAQ51197)

**6. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broblem o rywogaethau goresgynnol estron yng Nghymru? (OAQ51178)

**7. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu pa gefnogaeth sydd ar gael i amddiffyn yr aelwydydd mwyaf agored i niwed yng Nghymru rhag tlodi tanwydd y gaeaf hwn? (OAQ51209)

**8. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant amaethyddol yng ngorllewin Cymru? (OAQ51180)

**9. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn eu cymryd i annog pobl ifanc i mewn i'r diwydiant ffermio? (OAQ51191)**W**

**10.** **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu pa fesurau cynllunio sydd ar waith i ddiogelu ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd yng Nghymru? (OAQ51198)

**11.** **Vikki Howells (Cwm Cynon):**
Pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru? (OAQ51193)

**12.** **Huw Irranca–Davies (Ogwr):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet herio DEFRA i newid ei safiad ar y rheolau ynghylch profion ar ôl symud sy'n gysylltiedig â symud gwartheg o'r ardal TB isel yng Nghymru i'r ardal risg isel yn Lloegr? (OAQ51184)

**13.** **John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** Pa gamau pellach y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn eu cymryd i wella ansawdd aer yng Nghymru? (OAQ51214)

**14.** **Hefin David (Caerffili):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am sut y gellir defnyddio'r system gynllunio i adeiladu cartrefi newydd? (OAQ51211)

**15.** **David Rowlands (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y rhwystrau ariannol sy'n atal ynni adnewyddadwy rhag cyrraedd ei botensial yng Nghymru? (OAQ51194)

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

**1.** **Hannah Blythyn (Delyn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y cymorth sydd ar gael i weithwyr Cymunedau yn Gyntaf? (OAQ51205)

**2.** **Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd):** Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar dde-ddwyrain Cymru? (OAQ51201)

**3.** **Rhianon Passmore (Islwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyrraedd safon ansawdd tai Cymru? (OAQ51196)

**4.** **Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Beth yw rôl Llywodraeth Cymru yn y broses o adsefydlu troseddwyr yng Nghymru? (OAQ51179)

**5.** **David Rowlands (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyn-filwyr yng Nghymru, yn dilyn ei drafodaethau gyda grŵp arbenigol y lluoedd arfog? (OAQ51192)

**6.** **Julie Morgan (Gorllewin Abertawe):** Beth fydd y cam nesaf yn y broses o ddileu'r amddiffyniad o gosb resymol yng Nghymru? (OAQ51199) **TYNNWYD YN ÔL**

**7.** **Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chynnig i alluogi rhieni i ddatblygu technegau rhianta cadarnhaol? (OAQ51208)

**8.** **Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddefnyddio hysbysiadau a gyflwynir o dan adran 21 o Ddeddf Tai 1988 yng Nghymru? (OAQ51195)

**9.** **Sian Gwenllian (Arfon):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi ymysg plant? (OAQ51207)**W**

**10.** **Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru):** Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o gyflwyno credyd cynhwysol yng Nghymru? (OAQ51186)

**11.** **Vikki Howells (Cwm Cynon):** Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o raddfa a chwmpas caethwasiaeth fodern yng Nghymru? OAQ51200)

**12.** **Huw Irranca–Davies (Ogwr):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y llwybr tai cenedlaethol ar gyfer cyn-aelodau'r lluoedd arfog? (OAQ51183)

**13.** **Huw Irranca–Davies (Ogwr):** Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o fanteision rhaglen Dechrau'n Deg? (OAQ51182)

**14.** **Neil McEvoy (Canol De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am hawliau plant i gael mynediad at eu dau riant? OAQ51215)

**15.** **Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am berfformiad Rhentu Doeth Cymru? (OAQ51190)